Skills INSIGHT

Summit SKILLS

Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

RHIFYN 15 : GAEAF 2009

Coroni enillwyr y DU

I sŵn cymeradwyaeth wresog a gyda phawb yn wên o glust i glust, coronodd SkillELECTRIC a SkillPLUMB 2009 bencampwyr eleni.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth fyw ar gyfer rowndiau terfynol y DU 2009 o flaen miloedd o ymwelwyr â'r sioe Interbuild flynyddol yn Birmingham, lle bu ugain o'r prif drydanwyr a phlymwyr yn brwydro drwy dridiau o dasgau sgiliau ymarferol.

Chris Young o Rogers Restorations, Gwlad yr Haf, enillodd deitl y DU ar gyfer SkillELECTRIC 2009. Mae'r gystadleuaeth hon yn hybu safonau a sgiliau ar draws diwydiannau electrodechnegol ac mae wedi'i chefnogi gan ein prif noddwyr yr ECA a SELECT, cynrychiolwyr hirsefydlog y gorau mewn peirianneg drydanol a gwasanaethau adeiladau. Gyda Chris, a hyfforddwyd ac a gefnogwyd gan Goleg Bridgwater, oedd ei gyflogwyr, a thrwy gyd-ddigwyddiad y nhw sy'n cael sylw ym Mhroffil Cyflogwr y rhifyn hwn (gweler y tudalennau mewnol).

Nathan Cumming, a hyfforddwyd gan Goleg Moray yn yr Alban (SNIPEF), gipiodd y wobr gyntaf yn rownd derfynol SkillPLUMB DU 2009. Mae'r gystadleuaeth hon yn hybu sgiliau ac addysg plymo yn ein sector ac fe'i cefnogir gan ein prif noddwr y Gymdeithas Contractwyr Plymo a Gwresogi, y brif gymdeithas fasnach ar gyfer y diwydiant yng Nghymru a Lloegr. Rhoddodd Nathan, a gyflogir gan David Cumming & Sons Ltd, ddiolch arbennig i'w gyflogwyr a'r coleg am eu cefnogaeth.

Roedd Neil Collishaw, pennaeth cystadlaethau a gwobrau sgiliau SummitSkills, wrth ei fodd â'r safonau uchel parhaus eleni. "Unwaith eto, mae'r cystadleuwyr hyn wedi profi maen nhw yw gorau'r goreuon a byddem wrth ein bodd yn gweld rhai ohonynt yn mynd ymlaen i'r digwyddiadau rhyngwladol. Maent oll yn enillwyr mewn gwirionedd – mae cystadlu'n fyw yn y rowndiau terfynol cyhoeddus iawn hyn yn heriol dros ben ac maent i gyd wedi perfformio'n wych."

Mae SkillELECTRIC yn rhan o Skill M&E – cyfres o gystadlaethau sgiliau sy'n ceisio'r peirianwyr mecanyddol a thrydanol gorau yn y sector – sydd hefyd yn ymgorffori SkillFRIDGE ar gyfer y diwydiant rheweiddiad a thymheru, SkillPLUMB ar gyfer plymo a SkillPIPE ar gyfer gwaith pibellau gwresogi masnachol. Gallai enillwyr rowndiau terfynol y DU eleni gael y cyfle i gystadlu yn nigwyddiad nesaf rhyngwladol WorldSkills, cystadleuaeth sgiliau fwyaf y byd.

I gael gwybod mwy ewch i www.skillMandE.org.uk, ffôn 01908 303960 neu ebostiwch angela.buckingham@summitskills.org.uk

Cymhwysedd meicrogynhyrchu

Mae grŵp ymgynghorol arbennig, wedi'i arwain gan SummitSkills, wedi'i sefydlu i ddarparu arweiniad ar yr isafswm gofynion cymhwysedd ar gyfer dylunio a gosod system meicrogynhyrchu.

Mae'r Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu Annibynnol (MCS) yn gwerthuso cynnyrch meicrogynhyrchu a gosodwyr yn erbyn meini prawf cadarn, yn unol â safonau cyson, i ddarparu gwell diogelwch i ddefnyddwyr.

Mae SummitSkills yn arwain y Grŵp Ymgynghorol Cymhwysedd Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau i'r MCS a'r cynlluniau person cymwys rheoliadau adeiladu. Sefydlwyd y grŵp gyda chymeradwyaeth Grŵp Llywio MCS a'r Fforwm Person Cymwys i ddarparu arweiniad ar isafswm cymhwysedd technegol. Byddwn yn archwilio goblygiadau a heriau datblygu gofynion cymhwysedd a aliniwyd, yn ogystal â chynghori'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau datrysiadau arfer gorau a negeseuon defnyddwyr cywir.

Rhan allweddol o'r gwaith fydd alinio'r gofynion cymhwysedd i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Summitskills ar gyfer Technolegau Amgylcheddol a'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer ein sector.

I gael gwybod mwy, ffoniwch ein rheolwr datblygu John Pratt ar 07872 061681 neu ebostiwch john.pratt@summitskills.org.uk

yn y rhifyn hwn…

Fframwaith Cymwysterau a Chredydau
Yr hyn y mae'r diwygiad pwysig hwn o gymwysterau galwedigaethol yn ei olygu i beirianneg gwasanaethau adeiladau.

Cynllun Carbon Isel y DU
Gallai cynlluniau Llywodraeth y DU am economi fwy gwyrdd ddarparu cyfleoedd busnes newydd i beirianneg gwasanaethau adeiladau.

Gogledd Iwerddon
Graddedigion sgiliau craidd newydd yn dathlu yn Stormont.

Yr Alban
Ehangu meicrogynhyrchu yn cyflymu gyda datblygu cymwysterau newydd.

Cymru
Canolfan sgiliau gwyrdd gyntaf yn agor yng Nghymoedd De Cymru.

Proffil Cyflogwr
Mike Rogers yn egluro sut mae buddsoddi mewn hyfforddiant o safon wedi helpu ei gwmni i ehangu i mewn i feysydd busnes newydd.

Safbwyntiau ar gyfer y dyfodol
Cewch ddweud eich dweud ar sgiliau lefel uwch ar gyfer yr amgylchedd adeiledig.

Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol 2010
Amser i wobrwyo'ch gweithwyr addawol? Rhowch eich meddwl ar waith wrth i'r dyddiad nesáu!

Help i ymgynghorwyr gyrfaoedd
Arweiniad Good Day ar lwybrau hyfforddiant, cyfraddau cyflog, cymwysterau a mwy.

Yn agosach nag yr oeddech yn ei feddwl
Help i blymwyr i gamu i fyny i Lefel 2.

Alliance Sector Skills Councils

Y safbwynt o'r man hwn

Barn prif weithredwr SummitSkills Keith Marshall OBE ar y newyddion sy'n effeithio ar beirianneg gwasanaethau adeiladau:

Gyda'r Llywodraeth yn cyhoeddi targedau uchelgeisiol newydd i symud y DU i economi carbon isel, maen gan ein sector rôl fawr i'w chwarae. Mae'r technolegau ynni effeithlon newydd yn ffurfio estyniad naturiol o'n galwedigaethau a'n sgiliau presennol. Credaf y bydd y rhain yn chwarae rhan bwysig wrth gryfhau'n sector wrth i ni weithio tuag at dwf economaidd.

Mae cyflymder y cynnydd tuag at economi is mewn carbon yn golygu ei fod yn hanfodol bod ein diwydiannau yn cadw ar y blaen o ran datblygiadau. Hyblygrwydd yw'n allwedd i lwyddiant o hyd. Mae'r QCF, diwygiad mawr gan y llywodraeth mewn perthynas â'r ffordd y ceir mynediad i sgiliau, yn dilyn y gwaith a gynhaliwyd gan SummitSkills fel rhan o'r strategaeth i sicrhau bod cymwysterau yn ein sector yn parhau i gwrdd ag anghenion busnes.

Mae materion gwyrdd yn parhau i dderbyn llawer o sylw gennym. Rwy'n falch iawn â'r ganmoliaeth a dderbyniasom yn asesiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a arweiniodd at ein hail-drwyddedu yn llwyddiannus. Dywedodd y panel ail-drwyddedu bod yr agenda gwyrdd yn rhoi llwyfan gref i SummitSkills yrru newid yn ein sector. Gwelaf hwn fel cyfnod llawn cyfle i beirianneg gwasanaethau adeiladau i addasu, cynyddu ac ymestyn arbenigedd presennol i gyflwyno yn y meysydd twf hyn. Gyda'r gymeradwyaeth hon gan y Llywodraeth a UKCES, byddwn yn parhau i weithio'n agos â chyflogwyr yn ein sector i ddeall heriau ac anghenion sgiliau newidiol eu busnes.

Wrth i ni fynd i'r wasg, rydym yn disgwyl cyhoeddi strategaeth sgiliau'r Llywodraeth. Disgwyliwn y bydd hyn yn adeiladu ar adroddiad UKCES *'Towards Ambition 2020:skills, jobs, growth'* ac i nodi'r cam nesaf yn natblygiad cynghorau sgiliau sector yn y cyfnod ôl-drwyddedu.

Ac yn olaf, hoffwn estyn diolch arbennig i bawb a gymerodd ran yn rowndiau terfynol diweddar cystadlaethau sgiliau 2009 ar gyfer SkillELECTRIC, SkillFRIDGE, SkillPIPE a SkillPLUMB. Efallai mai ein henillwyr fydd deiliaid medalau aur nesaf WorldSkills fel Richard Sagar, fel yr adroddwyd yn ein herthygl (gweler brig y dudalen, ar y dde).

O'r holl gystadleuwyr a gymerodd ran, y bobl a gefnogodd hwy ar hyd y ffordd, darparwyr hyfforddiant ac yn enwedig ein noddwyr a'n cefnogwyr – ni fyddai'r digwyddiadau hyn yn gallu digwydd hebddoch chi. Hoffwn gydnabod hefyd ymdrechion ardderchog tîm SummitSkills sy'n gweithio'n ddiflino yn y cefndir i drefnu'r cwbl, gan roi cymaint o'u hamser eu hunain ac ysgwyddo sawl rôl er mwyn sicrhau bod y cwbl yn rhedeg yn esmwyth.

Diolchiadau arbennig a llongyfarchiadau i bob un ohonoch.

Y wobr aur!

Enillodd pencampwr SkillELECTRIC DU y llynedd Richard Sagar y wobr aur bwysig yn dilyn rownd derfynol ryngwladol WorldSkills 2009, cystadleuaeth sgiliau ryngwladol fwyaf y byd.

Bu Richard, a gyflogir gan Eden Electrics Ltd ac a hyfforddwyd gan SECTT, yn cystadlu yn erbyn ymgeiswyr o'r radd flaenaf yn y digwyddiad Gosodiadau Electrodechnegol yn Calgary, Canada ym mis Medi. Derbyniodd enillydd SkillPLUMB 2008 DU, Christopher Lonsdale Fedaliwn Rhagoriaeth, gan gynrychioli'r DU yn y gystadleuaeth Plymo a Gwresogi.

Cymerodd y 26 aelod o dîm y DU ran mewn ystod fawr o gystadlaethau sgiliau yn cynnwys dros 900 o gystadleuwyr o fwy na 50 o wledydd. Perfformiodd tîm y DU yn ardderchog, gan ennill tair aur, chwe efydd a 14 Medaliwn Rhagoriaeth.

Dywedodd prif weithredwr SummitSkills, Keith Marshall, oedd yn bresennol i gefnogi'r tîm:"Rwy' wrth fy modd bod ein cystadleuwyr wedi gwneud cystal yn WorldSkills. Mae cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn yn gyflawniad gwych a hoffwn longyfarch yr holl gystadleuwyr am eu hymroddiad a'u gwaith caled."

Yr Alban

Cynllun meicrogynhyrchu amgen i'r Alban

O ganlyniad i adborth negyddol gan gyflogwyr yr Alban ar y Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu BRE gwreiddiol (MCS), mae SummitSkills yn gweithio mewn partneriaeth â chonsortiwm o gyflogwyr, y tair cymdeithas fasnach peirianneg gwasanaethau adeiladau yn yr Alban a Scottish Renewables i ddatblygu cynllun amgen i'r Alban, yn seiliedig ar y Cynllun Ardystiwr Adeiladu SELECT, sy'n galluogi gweithredwyr achrededig i gymeradwyo gwaith trydanol cysylltiedig â Gwarant Adeiladu.

Mae'r cynnig i ymestyn y cynllun hwn i gwmpasu systemau ynni adnewyddadwy meicrogynhyrchu a sicrhau cydymffurfio â rheoliadau adeiladu'r Alban wedi derbyn cymeradwyaeth Jim Mather, y Gweinidog dros Fenter Ynni a Thwristiaeth, a swyddogion cysylltiedig y llywodraeth. Bydd manylion pellach am y cynllun ar gael yn 2009.

Er mwyn cefnogi'r cynllun hwn, mae SummitSkills a'i bartneriaid yn y diwydiant yn gweithio gydag Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) i ddatblygu ystod o unedau cymwysterau technoleg amgylcheddol seiliedig ar gymhwysedd ar SVQ Lefel 3, yn cwmpasu gosod, gwasanaethu a chynnal a chadw, ac agweddau ar ddylunio. Yr unedau cyntaf i gael eu datblygu yw'r rhai ar gyfer gosod gwresogi dŵr solar, ffotofolteddau a phympiau gwres ffynhonnell aer a daear.

Defnyddir yr unedau newydd i ddatblygu cyrsiau hyfforddiant a gydnabyddir gan y diwydiant i gynyddu sgiliau'r gweithlu peirianneg gwasanaethau adeiladau presennol a thanategu'r Cynllun Achredu.

I gael gwybod mwy am waith SummitSkills yn yr Alban, ffoniwch ein rheolwr gweithrediadau Ian Stirrat ar 0131 526 3151 neu ebostiwch ian.stirrat@summitskills.org.uk

Plymwyr Dwyrain Canolbarth Lloegr – yn agosach nag yr oeddech yn tybio!

Mae gan blymwyr yn Nwyrain Canolbarth Lloegr y cyfle i ddarganfod sut mae eu sgiliau a'u cymwysterau presennol yn cymharu â gofynion NVQ Lefel 2.

Mae SummitSkills, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Nottingham, wedi datblygu offeryn ar-lein newydd i annog plymwyr profiadol, ond sydd heb gymhwyso eto yn y rhanbarth i weld pa mor agos mae eu sgiliau eisoes yn cyfateb i'r gofynion ar gyfer y cymhwyster.

Mae *Closer-than-you-think* yn hawdd ei ddefnyddio, gan gynnig cyngor syml i blymwyr mewn tri cham hawdd. Cefnogir y fenter gan Rwydwaith Dysgu Gydol Oes Dwyrain Canolbarth Lloegr (Leapahead) i annog plymwyr lleol i ffurfioli eu sgiliau i NVQ Lefel 2 a chael mynediad i gyllid posib. I gael mynediad i'r offeryn, ewch i'r wefan www.closer-than-you-think.org

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â rheolwr gweithrediadau SummitSkills Kat Wehrheim ar 07872 061 677 neu ebostiwch: kat.wehrheim@summitskills.org.uk

Safbwyntiau ar gyfer y dyfodol

Mae SummitSkills yn gweithio gyda nifer o gynghorau sgiliau sector eraill, prifysgolion, sefydliadau proffesiynol a chyflogwyr i alluogi pobl â diddordeb yn yr amgylchedd adeiledig i ddweud eu dweud ar sgiliau lefel uwch yn y maes hwn.

P'un a ydych yn hunan-gyflogedig, yn gweithio i gontractwr bach, sefydliad sector preifat neu gyhoeddus o unrhyw faint – beth bynnag yw eich rôl, mae eich barn yn bwysig.

Mae SummitSkills yn eich gwahodd i drosglwyddo eich syniadau yn defnyddio Carreg Ateb Rith ar-lein a sefydlwyd gan Grŵp Cyflwyno Strategaeth Addysg Uwch y Gynghrair Sgiliau Amgylchedd Adeiledig (BESA) sy'n ceisio ystod eang o safbwyntiau i helpu i lunio strategaeth, nawr ac yn y dyfodol.

Pa lwybr bynnag y dewiswch i gwblhau eich astudiaethau cyn gweithio yn y sector, drwy roi eich barn i BESA nawr gallech helpu dylanwadu ar y canlyniad i rywun sy'n astudio ar hyn o bryd, yn cwblhau eu hastudiaethau Addysg Uwch neu'r cyflogi graddedigion i weithio yn yr amgylchedd adeiledig.

I gymryd rhan, yr unig beth sydd ei angen arnoch yw mynediad i'r rhyngrwyd. Darperir arweiniad llawn ar ddefnyddio'r garreg ateb pan fyddwch yn cofrestru – am fanylion llawn ar yr hyn i'w wneud a sut i ymuno, ebostiwch besa@cic.org.uk

Mike Rogers,
Rogers Restorations Electrical

Proffil Cyflogwr

Rogers Restorations Electrical, perianwyr trydanol wedi'u lleoli yng Ngwlad yr Haf, yn ehangu i mewn i ynni cynaliadwy fel Sunlit Sustainable Solutions.

Sut ydych chi'n cymryd rhan yng ngwaith SummitSkills?

Mae gennym lawer o hyder yn ein prif ddarparwr hyfforddiant Coleg Bridgwater, lle y gwnes i gymhwyso fy hun. Drwy'r coleg, dechreuasom gymryd rhan yn y cystadlaethau sgiliau a drefnir gan SummitSkills ac mae'n bleser dweud ein bod wedi cyrraedd y rownd derfynol.

Pam ei fod yn bwysig i chi eich bod y cyfrannu?

Wedi dilyn y llwybr prentisiaeth cyn dechrau fy musnes fy hun, rwyf wedi dysgu gwerth hyfforddiant yn y swydd er mwyn paratoi ar gyfer bywyd gwaith. Mae'n gydbwysedd angenrheidiol rhwng addysg a phrofiad sy'n rhoi sylfaen gadarn i chi ar ddechrau'ch gyrfa.

Sut mae eich cwmni yn cymryd rhan mewn hyfforddiant?

Rydym yn darparu lleoliadau gwaith i brentisiaid sy'n cymhwyso a rhai sydd newydd gymhwyso. Mae hyn yn rhoi'r cyfle iddynt brofi bywyd go iawn yn y gweithle wrth iddynt ennill eu cymwysterau, fydd yn amhrisiadwy gyda chyflogwyr yn y dyfodol. Ynghyd â'r coleg byddwn yn asesu eu gwaith ac yn darparu cofnodion o'u profiad y gallant eu defnyddio mewn ffordd debyg i CV cyflogaeth.

Pam ei fod yn bwysig i gyflogwyr recriwtio a hyfforddi?

Mae sefydliad llwyddiannus yn seiliedig ar alluoedd y bobl y tu ôl iddo. Mae recriwtio'r staff cywir a pharhau i ddatblygu eu sgiliau yn ein galluogi i ehangu a hybu ein busnes yn hyderus. Mae dangos ffydd mewn aelod o'r tîm drwy fuddsoddi yn eu galluoedd yn ffordd wych i hybu moral i'r cwmni hefyd. Mae hyfforddiant o safon, wedi'i gefnogi gan gymwysterau a gydnabyddir gan y diwydiant, wedi rhoi'r cyfle i ni ehangu i mewn i ynni cynaliadwy.

Diwygiad mawr i gymwysterau galwedigaethol

Beth yw'r QCF?
Mae'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) yn rhan o ddiwygiad mawr gan y llywodraeth o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fe'i cynlluniwyd i symleiddio'r system gymwysterau, gan gyflwyno newid cyffredinol fydd yn fanteisiol i'r dysgwr, cyflogwyr a mudiadau cysylltiedig. Bydd y QCF yn galluogi pobl i ennill cymwysterau yn eu pwysau, gan gynnig mwy o ddewis a llwybrau mwy hyblyg.

Mae Summitskills yn ystyried y QCF fel cyfrwng i godi lefelau cymhwysedd mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau drwy gyflwyno y gellir addasu, gyda mwy o gysondeb ar draws cymwysterau galwedigaethol a rhaglenni prentisiaeth.

Pryd fydd pethau'n newid?
Bydd y QCF yn raddol ddisodli'r cymwysterau galwedigaethol blaenorol (yn cynnwys NVQs) a achredwyd ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF). Tan ddiwedd 2010, bydd y ddau ohonynt yn cyd-fodoli ochr yn ochr tan i'r cymwysterau a ddiwygiwyd gael eu blaenoriaethu a'u hailddatblygu. Rhagwelir y bydd yr holl gymwysterau galwedigaethol achrededig ar y QCF o ddechrau 2011 pan fydd y NQF yn cau.

Beth am beirianneg gwasanaethau adeiladau?
I helpu blaenoriaethu datblygiadau cymwysterau ar gyfer ein sector, mae SummitSkills wedi gweithredu ein Strategaeth Cymwysterau Sector (SQS) i sicrhau bod cymwysterau ein sector yn addas at y diben.

Rydym wedi cwblhau ymgynghoriad manwl gyda chyflogwyr a phartneriaid allweddol eraill i adolygu a diweddaru'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau. O hyn, roeddem yn gallu adolygu'r egwyddorion cynllunio ar gyfer datblygu cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd i gefnogi anghenion sgiliau y sector a nodwyd yn ein SQS.

Roedd hyn yn ein galluogi i adolygu llwybrau cynnydd i unigolion i sicrhau eu bod yn gydnaws ag anghenion busnesau'r sector, p'un a ydynt mewn contractio, gwasanaethu, cynnal a chadw, rheoli neu ddylunio.

Gallwch gael gwybod mwy o wefannau'r QCF: www.qca.org.uk/qca_8150.aspx ac Ofqual: www.ofqual.gov.uk/51.aspx neu ffoniwch Trevor Hill yn SummitSkills ar 01908 303969.

Summitskills yn galw…

Mae SummitSkills yn casglu ymchwil ar hyn o bryd ar gyflwr technolegau amgylcheddol o fewn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau, i nodi anghenion hyfforddiant yn y maes hwn.

Rydym yn siarad gyda gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr i ddarganfod mwy am weithgareddau hyfforddiant presennol a datblygu sgiliau mewn technolegau amgylcheddol i ddeall anghenion cyflogwyr ein sector yn well. Os mai dyma eich maes arbenigedd, mae angen eich barn arnom! Mae ein harolwg ffôn yn offeryn hanfodol yn yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad fydd yn dilyn, felly os nad ydych wedi cymryd rhan eto, rydym yn awyddus i glywed gennych. Rydym yn brysur yn cysylltu â chynifer o bobl â phosib felly treuliwch ychydig funudau yn siarad â ni pan fyddwn yn ffonio.

Fel arall os ydych yn weithgynhyrchydd mewn technolegau amgylcheddol ac nid ydych wedi clywed gennym eto, ebostiwch ein manylion a'ch argaeledd i Jodie Cooke yn SummitSkills: jodie.cooke@summitskills.org.uk neu ffoniwch 01908 303979.

Mae'r Grŵp Diddordeb Gweithgynhyrchwyr a Chynaliadwyedd yn cynnig fforwm i drafod agenda'r amgylchedd ar gyfer y sector. I gael gwybod mwy, cysylltwch â'n rheolwr gweithrediadau Bob Blake ar 07834 868959 neu ebostiwch robert.blake@summitskills.org.uk

Gogledd Iwerddon

Mwyafu perfformiad gyda Sgiliau Hanfodol

Anrhydeddwyd y bobl gyntaf yn ein sector i ennill cymwysterau yn llwyddiannus fel rhan o'r fenter Sgiliau Hanfodol yng Ngogledd Iwerddon mewn digwyddiad ysblennydd a gynhaliwyd yn Adeiladau'r Llywodraeth yn Stormont.

Mae Essential Skills yn rhan o raglen ddysgu at y diben y mae SummitSkills yn ei chynnal gyda Unite the Union a'r Ymddiriedolaeth Hyfforddiant Trydanol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r prosiect yn anelu at annog mwy o gyflogeion peirianneg gwasanaethau adeiladau i ymgymryd â hyfforddiant sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae ymagwedd hyblyg y fenter dysgu yn y gweithlu hon yn golygu bod cyflogwyr yn mwyafu perfformiad staff gyda chyn lleied o aflonyddu â phosib ar weithgareddau busnes bob dydd.

Ymunodd y Gweinidog Cyflogaeth a Dysgu Syr Reg Empey â rhai o brif gyflogwyr, cymdeithasau masnach, darparwyr hyfforddiant a ffederasiynau cyflogwyr Gogledd Iwerddon o beirianneg gwasanaethau adeiladau i ddathlu cyflawniadau'r hyfforddeion. Dywedodd Syr Reg: "Mae llwyddiant ein heconomi yn y dyfodol yn dibynnu ar ein gallu i ddatblygu sgiliau newydd neu wella'r rhai presennol. Bydd ymgysylltu â rhaglenni fel Essential Skills yn sicrhau ein bod ni, fel economi flaengar, yn barod ar gyfer yr adferiad."

Gan longyfarch y don gyntaf o ddysgwyr, dywedodd Keith Marshall OBE, prif weithredwr SummitSkills: "Mae'r fenter EssentialSkills wedi'i chynllunio i helpu cyflogeion i ddysgu sgiliau craidd fydd yn y pen draw yn helpu datblygu eu gyrfa a'u caniatáu i gyfrannu at berfformiad eu cyflogwyr."

Bellach yn ei ail flwyddyn, mae'r cynllun yn ehangu ar draws Ogledd Iwerddon i gynnig y cyrsiau i'r holl fusnesau yn ein sector. Mae rhai o'r rheiny sy'n mwynhau llwyddiant eu graddedigion ar hyn o bryd yn cynnwys Kedington NI Ltd., Fire NI, Wrightbus, Dowds Electrical a Glenavy Electrics.

I gael gwybod mwy cysylltwch â Tommy Allen, ymgynghorydd dysgu'r sector (Essential Skills), Unite/SummitSkills, 26–34 Antrim Road, Belfast BT15 2AA, ffôn 08456041402, symudol 07752046995 neu ebost tommy.allen@summitskills.org.uk

Am fwy o wybodaeth am waith SummitSkills yng Ngogledd Iwerddon, ebostiwch ein rheolwr gweithrediadau Trevor Johnston: trevor.johnston@summitskills.org.uk

Cynllun Trawsnewid Carbon Isel y DU

Mae peirianneg gwasanaethau adeiladau yn paratoi i chwarae rôl allweddol wrth i Bapur Gwyn y Llywodraeth gyhoeddi cynlluniau i fynd â'r DU i economi carbon isel, gan anelu at dorri allyriadau o 18% ar lefelau 2008 erbyn 2020, fydd gyfystyr â lleihad o draean ar lefelau 1990.

Bydd peirianneg gwasanaethau adeiladau yn chwarae rôl hanfodol wrth gyflwyno strategaethau rhanbarthol a strategaethau'r gwledydd ar gyfer effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan asiantaethau datblygu rhanbarthol a gweinyddiaethau datganoledig. Mae technolegau amgylcheddol ac adnewyddadwy yn estyniad o alwedigaethau a sgiliau presennol ein sector, ac mae'n hanfodol bod ein diwydiannau ar y blaen mewn perthynas â datblygu hyfforddiant yn y meysydd twf hyn.

Mae angen i'r sector weithio gyda busnesau a chymunedau i ddangos arweinyddiaeth gref mewn symudiad i economi carbon isel a darparu cyngor cadarn fydd yn sbarduno penderfyniadau effeithiol i leihau allbynnau carbon. Mae SummitSkills yn annog cyflogwyr yn y sector i gynyddu eu sgiliau mewn technolegau amgylcheddol gan y bydd yn cynnig cyfleoedd busnes sylweddol i'r sector peirianneg gwasanaethau adeiladau pan fydd y DU yn adfer ar ôl y dirwasgiad.

I helpu aelwydydd i ddod yn fwy ynni effeithlon, bydd £3.2 biliwn ar gael i gynyddu'r Targed Lleihau Allyriadau Carbon i 20% dros y tair blynedd nesaf. Caiff £1.9 biliwn o hyn ei gyfeirio at aelwydydd hawdd ei niweidio i helpu mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Bydd mesuryddion 'smart' yn cael ei gosod ym mhob cartref erbyn 2020 a chyflwynir cymhellion ariannol i annog pobl i fuddsoddi mewn datrysiadau carbon isel, fydd yn galluogi cwsmeriaid i gael eu talu am ynni adnewyddadwy dros ben a gynhyrchir gan ddefnyddio technolegau meicrogynhyrchu fel paneli solar. Bydd cynlluniau eraill yn cynnwys helpu aelwydydd wneud arbedion drwy gymorthdaliadau ynni a gwell inswleiddio.

Dywedodd Cathryn Hickey, Cyfarwyddwr Gweithrediadau SummitSkills: "Mae gan effeithlonrwydd ynni a thechnolegau amgylcheddol gyfraniad mawr i'w wneud i helpu i symud i garbon isel a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae angen i'n sector gynyddu ei sgiliau mor gyflym â phosib er mwyn cwrdd â gofynion ei rôl alluogi yn llawn wrth gyflwyno'r cynllun trawsnewid hwn."

Gallwch weld Cynllun Trawsnewid y DU llawn yn adran gyhoeddiadau gwefan yr Adran Ynni & Newid yn yr Hinsawdd yn www.decc.gov.uk

Torri allyriadau'r Gogledd Orllewin

Mae Summitskills yn gweithio gyda'r North West Domestic Energy Alliance (NWDEA) i helpu datblygu strategaeth y dyfodol ar gyfer ynni domestig yng Ngogledd Orllewin Lloegr.

Mae'r NWDEA yn dod â mudiadau ynghyd sy'n cyfrannu at leihau allyriadau carbon domestig, yn ymladd tlodi tanwydd ac yn annog gosod technoleg meicrogynhyrchu ac ynni effeithlon.

Fel partner strategol allweddol yn gyfrifol am ymgynghori ar sgiliau a hyfforddiant ar gyfer datblygiadau carbon isel, mae SummitSkills yn cydlynu adborth gan bum gweithdy rhanbarthol i integreiddio cynlluniau datblygu'r dyfodol o fewn ein sector.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos ag Asiantaeth Datblygu Ranbarthol y Gogledd Orllewin (NWDA) ar y Prosiect Sgiliau Carbon Isel, a sefydlwyd er mwyn cwrdd â thargedau lleihau carbon rhanbarthol a sicrhau gweithlu cymwys a chynaliadwy. Bydd ein canllawiau yn sicrhau bod sgiliau a hyfforddiant ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau yn cael eu datblygu a'u cyllido'n ddigonol.

I gael gwybod mwy, cysylltwch â'n rheolwr gweithrediadau Rob Wellman ar 07834 868954 neu ebostiwch: rob.wellman@summitskills.org.uk

Cymru

Twf gwyrdd yn esgor ar egin academi

Mae'r Ganolfan Sgiliau Gwyrdd Nwy Prydain gyntaf ar fin agor yng Nghymoedd De Cymru, yn cynnig hyfforddiant sgiliau arbenigol mewn technolegau ynni gwyrdd newydd. Bydd y ganolfan yn Nhredegar hefyd yn helpu pobl sydd wedi bod yn ddiwaith am gyfnod hir i ailhyfforddi yn y diwydiannau hyn.

Mae SummitSkills yn falch o fod wedi cyfrannu at y ganolfan ragoriaeth hon mewn hyfforddiant sgiliau, sydd wedi'i chynllunio'n benodol i gwrdd ag anghenion y sector ynni gwyrdd sy'n tyfu'n gyflym.

Rydym wedi gweithio gyda Nwy Prydain ar ei datblygiad, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, JobMatch, Canolfan Byd Gwaith a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Bydd y Ganolfan Sgiliau Gwyrdd, fydd yn hyfforddi mwy na 1300 o bobl y flwyddyn, hefyd yn tiwtora staff Nwy Prydain mewn technolegau adnewyddadwy, er y bydd mwyafrif y lleoedd hyfforddi yn cael eu llenwi gan bobl o'r tu allan i'r cwmni. Bydd y ganolfan hefyd yn adeiladu partneriaethau agos â darparwyr hyfforddiant eraill yn yr ardal, gan geisio ychwanegu gwerth o'r portffolio o sgiliau y maent yn eu cynnig eisoes.

Bydd y cyfleuster newydd hefyd yn allweddol yn y cynllun i helpu mwy na 40,000 o gartrefi Cymru i ddod yn fwy ynni effeithlon, fel rhan o ymdrech Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu'r parth carbon isel mwyaf o'i fath yn Ewrop.

I gael gwybod mwy am weithgareddau SummitSkills yng Nghymru, ebostiwch ein rheolwr gweithrediadau Kathryn Hopkins-Morgan: kathryn.morgan@summitskills.org.uk

Gwobrwyo'ch gweithwyr gorau!

Bob blwyddyn, mae SummitSkills yn trefnu'r Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau i ddathlu'r goreuon ymysg prentisiaethau a pheirianwyr ar draws y DU.

Rydym nawr yn gwahodd enwebiadau ar gyfer gwobrau 2010. Dyma eich cyfle i wobrwyo eich gweithwyr gorau yn un o'r deg categori pwysig yn nathliad sgiliau y flwyddyn nesaf. Bydd y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain yn cynnal y digwyddiad ar ddydd Mercher 17 Mawrth.

Ben Law, coedwigwr ac arbenigwr amgylcheddol, sy'n ymddangos ar raglen Grand Designs Sianel 4, fydd ein siaradwr gwadd arbennig.

Gallwch gael gwybod mwy a lawrlwytho'r ffurflen enwebu ar ein gwefan yn www.summitskills.org.uk/nta

Canllaw i ymgynghorwyr gyrfaoedd

Mae SummitSkills wedi cynhyrchu canllaw gyrfaoedd cynhwysfawr a gynlluniwyd yn benodol i helpu ymgynghorwyr i hysbysu unigolion am y cyfleoedd sydd ar gael mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Mae'r canllaw hawdd ei ddefnyddio hwn yn cynnwys manylion tueddiadau a rhagolygon y farchnad lafur yn ogystal â gwybodaeth am y diwydiannau o fewn ein sector. Rydym yn dweud wrthych am lwybrau hyfforddiant posib, trosglwyddadwyedd sgiliau, graddfeydd cyflogau a llwybrau cynnydd o fewn yr amrywiol lefelau sgiliau a chymwysterau. Mae wedi'i gynhyrchu mewn partneriaeth â'r Adran Arloesi Busnes a Sgiliau (BIS – DIUS gynt), sy'n darparu cyllid i alluogi datblygu yn y dyfodol.

Cynlluniau'r dyfodol
Bydd y gwaith yr ydym wedi ymgymryd ag ef eleni yn cynhyrchu gwell proffiliau swyddi, yn ogystal ag arweiniad penodol i bobl sy'n ceisio newid gyrfa i'w helpu i fesur sgiliau presennol yn erbyn gofynion swyddi yn ein sector. Mae cynlluniau'r dyfodol yn cynnwys darparu gwybodaeth am wasanaethau trydanol ac electronig.

Oherwydd bod gwybodaeth gyrfaoedd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, mae SummitSkills yn ymchwilio ffyrdd newydd i ymgynghorwyr gadw ar y blaen o ran newidiadau yn seiliedig ar eu dewisiadau unigol. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cynyddu Oedolion a Gyrfaoedd i integreiddio manylion am yrfaoedd yn ein sector i helpu i wella'r gwasanaeth y maent yn ei gyflwyno i gleientiaid.

Lle gallwch gael gwybod mwy?
- Copi o'r canllaw gyrfaoedd y gellir ei lawrlwytho: www.goodday.org.uk/guide
- Canllaw SummitSkills i ymgynghorwyr gyrfaoedd: www.goodday.org.uk/advisors
- Gwefan Gwasanaeth Cynnydd Oedolion a Gyrfaoedd: www.iagreview.org.uk
- Ebostiwch rheolwr gweithrediadau SummitSkills Kevin Dowd: kevin.dowd@summitskills.org.uk

Prosiect Trydanol Llundain

Mae SummitSkills yn rheoli menter hyfforddiant arbennig, sy'n agored i'r holl fusnesau contractio trydanol yn ardal Llundain, i helpu cwmniau trydanol lleol elwa ar gyfleoedd posib yn codi o gemau Olympaidd 2012 a thu hwnt.

Mae Prosiect Trydanol Llundain yn cynnwys rhaglen cyngyflogaeth i ymgeiswyr di-waith sy'n oedolion sydd wedi cwblhau Tystysgrif Dechnegol Lefel 3 seiliedig ar theori (neu ar fin gwneud hynny) i'w helpu i gynyddu i statws cwbl gymwys, Lefel 3.

Wedi'i gefnogi gan yr Awdurdod Cyflwyno Olympaidd, y Gymdeithas Contractwyr Trydanol, a'i gyllido gan Asiantaeth Datblygu Llundain, mae'r prosiect eisoes wedi cefnogi dros 100 o ymgeiswyr gyda rhai bellach yn ymgymryd ag NVQs. Mae gan chwe pherson leoliadau swyddi yn barod – dau gyda Notting Hill Housing, un gyda'r cwmni rheoli cyfleusterau MITIE a'r lleill fel partneriaid trydanwyr drwy asiantaethau.

Mae ymgeiswyr newydd wedi cofrestru'n ddiweddar ar gyrsiau sgiliau cyflogadwyedd a gyflwynir mewn partneriaeth â Choleg Gogledd Ddwyrain Llundain a Choleg Croydon, a bydd y rhaglen dreigl yn parhau tan fis Mawrth 2011.

Gallai cyflogwyr peirianwyr trydanol cymwys a hyfforddwyd yn dda ennill busnes posib ar gyfer y dyfodol gan brosiectau Llundain gyfan, fel Crossrail a datblygiad Porth y Tafwys.

I gael gwybod mwy am Brosiect Trydanol Llundain, ffoniwch rheolwr gweithrediadau SummitSkills Vince Glover ar 07834 868958 neu ebostiwch: vince.glover@summitskills.org.uk

Ardystio Prentisiaethau

Mae tystysgrifau a gyhoeddwyd gan SummitSkills yn nodi bod cyfanswm nifer y prentisiaethau sy'n cwblhau eu prentisiaethau yn llwyddiannus wedi codi o 6,600 yn 06/07 i dros 10,000 yn 08/09.

Cymryd rhan!

Rydym am glywed gennych – os ydych yn fusnes mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau, mae angen eich barn arnom i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y sector. Cysylltwch â ni i gael gwybod sut y gallwch gyfrannu ac elwa:

Anfonwch eich manylion atom drwy:
- Ffacs: cwblhewch eich manylion a ffacsio'r dudalen hon i 01908 303989
- Ffôn: 01908 303960
- ebost: enquiries@summitskills.org.uk

Enw: .....

Cwmni: .....

Tref: .....

Ffôn: .....

SummitSkills Vega House, Opal Drive, Fox Milne, Milton Keynes MK15 0DF
T: 01908 303960 • Ff: 01908 303989 • www.summitskills.org.uk • ebost enquiries@summitskills.org.uk • Llinell Gwybodaeth Gyrfaoedd: 08000 688 336